



### Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Fforest Glyn Cothi

Mae Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Fforest Glyn Cothi a sefydlwyd gan Glwstwr Twristiaeth Coedwig Brechfa a Mynydd Llanllwni yn codi ymwybyddiaeth am fywyd traddodiadol preswylwyr coedwigoedd a'r safleoedd treftadaeth naturiol a'r rhai adeiledig yng Nghoedwig Brechfa, Mynydd Llanllwni a'r cymunedau sy'n eu hamgylchynu.

Mae gwybodaeth am bobl leol enwog ac am safleoedd ysbrydol, crefyddol a safleoedd i dwristiaid ar gael yn ein llenyddiaeth ac ar ein gwefan:

**www.roam-brechfaforest-llanllwnimountain.co.uk**

Arianwyd gan / Funded by

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

RDP Sir Gâr

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Caeau Olew Brechfa

Mae'n wir yr ystyriwyd Brechfa yn 'Texas' Cymru gan yr oedd yn ffynhonnell bwysig o ran olew!

Roedd Brechfa hefyd yn cyflenwi ffrwydron a choed ar gyfer y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.



Coedwig Brechfa oedd un o'r prif ffynonellau olew a ffrwydron am nifer o ganrifoedd yn arwain at y 1920au, ond serch hynny nid oes unrhyw arwyddion o ddrilio am olew! Diwydiant medrus iawn oedd hwn, gan fanteisio ar bob budd posib o gynhyrchu golosg.

Yn y 'gweithfeydd cemegol' (wedi'u pweru gan olwyn ddŵr) torrwyd glasbrennau derw o'r goedwig yn ddarnau tair troedfedd o hyd a'u gosod mewn ffyrnau. Wedi deuddeng awr o losgi rheoledig byddent yn troi'n olosg. Yn ystod y broses hon anfonwyd yr anweddau o'r ffyrnau trwy bwll dŵr oedd yn gweithredu fel cyddwysydd. Roedd yr anweddau yn cyddwyso yn dar, dŵr ac olew ac yn cael eu casglu mewn sympiau (ffynhonnau tar). Roedd llawer o ddefnyddiau i dar coed, megis darparu ffynhonnell gyffredinol o saim a glud, inswleiddio ar gyfer adeiladau a chyrff llongau, cadwolyn croen a phren ac ar gyfer meddyginiaethau traddodiadol.

Cafodd yr olew dyfrllyd ei bwmpio i gerwyni a'i gymysgu â chalch. Corddwyd y gymysgedd tan yr oedd ewyn ar yr wyneb ac yna cafodd ei adael i setlo cyn cael ei symud i foeler. Pan gafodd ei ferwi aethpwyd â'r anweddau a gynhyrchwyd mewn pibellau i gasgen yn yr ystafell nafftha. Mae gan nafftha ar ffurf toddydd fflachbwynt uwch na pharaffin. Cafodd ei ddefnyddio mewn chwythlampau i losgi hen baent oddi ar goed.

Cymhwyswyd mwy o brosesau i'r gwaddod cyn iddo gael ei adael mewn cyfres o gasgenni i setlo gyda rhan ohono'n cynhyrchu olew ysgafn i iro peiriannau.

Roedd gan olosg o goed eraill ddefnyddiau gwahanol. Defnyddiwyd golosg o bren gwern i wneud powdr gwn ac roedd hon yn ffynhonnell bwysig o ffrwydron ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwnaed powdr du ar gyfer "huddyglu" o'r fedwen. Cynhyrchwyd golosg o ynn a cyll hefyd.

Cynnyrch ymylol arall y diwydiant golosg oedd halen calch (Calcium acetate) a ddefnyddiwyd i wneud finegr ar gyfer piclo.

Cyflogwyd dynion a menywod yn y gweithfeydd. Tynnai'r menywod y rhisgl oddi ar y wern oherwydd os oedd rhisgl gwernen yn cael ei losgi bydda'r golosg yn cael ei ddifrodi. Roedd y dynion oedd yn gweithio yn y gweithfeydd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf yn ennill 2s. 6d (12.5 ceiniog) y dydd.

Nid oes unrhyw beth ar y tir ar safle'r gweithfeydd mwyach. Caeodd y rhain ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf ac mae'r safle bellach yn dŷ preifat.

